**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025**

Cystadleuaeth 94 – Côr Cerdd Dant Bl. 13 ac iau

**Diwrnod Arall, Geraint Griffiths**

Daw'r nos yn oer fel arian,
Â llwydrew yn y llais
Sy'n sibrwd ar y wifren
Yn sisial efo'r cais,
Ac allan aiff i'r hwyrnos
I'r llwydni ar y stryd
I ddilyn yr addewid
A ddaeth â'r gwres i'w fyd.

Fe wibiodd dros y palmant
Â'i gam yn ysgafndroed,
Ei boced yn llawn gwacter,
Y llencyn ugain oed
I'r düwch a'r diffeithwch
A fu canol y dref,
I edrych am ei gariad
Addawai'r seithfed nef.

Fe welodd hi o bellter
Wrth gerdded lawr yr allt
Â'r golau aur yn dawnsio
Fel gemau yn ei gwallt,
Estynnodd mâs ei ddwylaw
I'r croeso yn ei gwên,
Ac mewn dwy lygad ifanc
Fe welodd flinder hen.

Ac mae fory'n ddiwrnod arall
A bydd fory'n ddiwrnod gwell,
A bydd fory yn llawn Heulwen
'Dyw'r bryniau ddim mor bell.
Ac mae fory'n ddiwrnod arall
A bydd fory'n ddiwrnod gwell,
A bydd fory yn llawn Heulwen
'Dyw'r bryniau ddim mor bell.